

4.119

TO THE FRONT!



Beneath the weeping willow leave
 I there my darling sweet,
 I must leave my white dove to grieve
 Until again we meet,
 It is for country and for thee
 For parents and for home
 The Alien foe my sword shall see,
 And I now far must roam.

To where my Country's banner furl
 I'm off, come weal or woe
 No one shall tell my sunny girl
 She's conquered by a foe;
 No one shall rise it to her face
 She loved a coward man
 Nor scorn her as of conquered race
 And of a vanquished clan.

No one shall bleed my mother's heart
 When ranks return in joy
 Nor tell her with those stings that smart
 She bore a coward boy;
 I'm off—I hear the bugle horn
 My country calls for me;
 I'm off, my mates are yonder torn
 Neath the Flag of Liberty.

I'll draw my sword for little Wales,
 No foe shall cloud her sun,
 I know the flowers of her dales
 I do not know the Hun;
 I'll draw my sword for Englands King
 Where e'er his Flag will furl,
 I only want for all—one thing—
 The love of my sweet girl.

TORIEL.

John Williams

PRICE ONE PENNY.

X205220575

Balad Filwrol.

“Dai Cwm Dulais.”

I'r gad aeth “Dai Cwm Dulais”
Yn wrol iawn ei wedd,
Fe aeth yn ysbryd Glyndwr
I fyd y gwn ar cledd;
Dihunodd tan Llewelyn
Yn ei angerddol fron,
I'r gad aeth Dai Cwm Dulais
Fel car dros Gymru lon.

I'r gad aeth Dai Cwm Dulais
Fel cawr gan lawenhau,
A chydag ef o'r dyffryn
Aeth llawer Will a Dai;
Er mwyn yr hen fynyddoedd
A breintiau mawr ein gwlad
Dilynodd “Dai” dewrion
I'r Gad! ir Gad!! ir Gad!!!

I'r gad aeth Dai Cwm Dulais
A'i gwdyn ar ei gefn,
I'r gad aeth halier gwrol
Rhagorol Bwll y Seven;
Mor falch mae hen gyfeillion
O'i weld ar faes y gad,
Yn trin y cledd ai fagnel
Er mwyn hen Walia fad.

I'r gad aeth Dai Cwm Dulais
Pob parch i'r serchog Gawr,
Boed iddo gwympto'r German
A llawer Uhlau mawr:
Wrth ganu clod Cwm Dulais
Fe genir clod y wlad,
Am ddanfôn llawer Dafydd
Fel “Dai” i faes y gad.

Doed ysbryd hen wroniaid
I'r newydd oes i lawr,
Rhaid brwydro dros Gyfiawnder
Rhaid cwmpo trais i'r llawr;
Ymgodwch fechgyn ieuainc
I gwrdd a hawliau'r wlad,
Dilynwch Dai Cwm Dulais
Dros Gymru tua'r Gad.

Mae genym ni ein rhyddid
Mae genym ni ein hedd,
A rhaid amddiffyn heddyw
Y cyfryw gyda'r cledd;
Mae'r gelyn ar y bryniau
Yn dal magnelau brad,
O blaid Cyfiawnder fechgyn
Dilynwn "Dai" i'r Gad.

Dilynwn gamrau arwyr
Yr oesau dros y Gwir,
Rhaid clrwifio'r faner eto
Dros Iawnder yn ein tir;
Nid teg gweld traed yr estron
Yn sathru Belgium fad,
Er mwyn y Genedl fechan
Dilynwn "Dai" i'r gad-

Mae'r Almaen wedi mathru
Pob rhyddid tan ei thraed,
Ac wedi coch i'r llwybrau
A diniweidiol waed;
Er mwyn y fam a'i baban
Er mwyn tangnefodd gwlad;
Ac er mwyn dal y bradwr
Awn gyda "Dai" i'r Gad.

ALVA.



Gymru! I'r Gad!

Rho fin i'th gleddyf Gymru!
Rho dan i'th fagnel fawr!
Rho heibio heddyw'th ganu
A brwydra megis cawr;
Saf dros dy dir a'th ryddid
Yn erbyn twyll a brad
Er mwyn dy hedd a'th londid
O! galw'th feib i'r gad.

Fe gefaist di dy lethu
Fy ngwlad un waith yn fawr
A chest dy erchyll waedu
Fel Belguim fach yn awr;
O! cyfod wlad y delyn
Am dro yn wlad y cledd,
Clyw Glyndwr a Llewelyn
Yn galw'n glir o'u bedd!

Gwisg wisg dy nerth fy Nghymru
Myn gleddyf gyda 'th gan;
Tra'th fagnel yn taranu,
O! cadw'n Gymru lan;
Mae'r byd yn galw'n uchel
Am dy gynorthwy 'nawr
O! Gymru cerdd fel angel
I faes y frwydyr fawr.

Mae Arthur yn llefaru
O'r hen ganrifoedd gynt,
Mae'i gleddyf yn tywynu
Ar lwybrau'r haul a'r gwynt;
Cei gymorth o'r mynyddoedd,
Cei nodded yr un pryd,
Rho help yn enw'r Nefoedd
Ym mrwydyr benna'r byd.